# CYNGOR CYMUNED CLYNNOG FAWR

-------------------------------------------

Cofnodion cyfarfod o Gyngor Cymuned Clynnog fawr a gynhaliwyd yn Neuadd y Pentref, Clynnog nos Fawrth 16 Medi 2025.

**1.** Estynnwyd croeso i bawb i'r cyfarfod.

**2. <u>Ymddiheuriadau</u>** - Eleri Owen, Eirian Allport, Gwenno Griffiths, Guto Huws, Rhys Jones, Iwan Williams, Siôn Tomos a Cyng. Dafydd Davies.

**<u>Presennol</u> –** Aaron Hughes (cadeirydd), Thomas Williams, Ken Williams, Eifion Jones ac Elias Jones.

**3. <u>Cofnodion cyfarfod 15 Gorffennaf 2025</u>** – Cynigwyd gan Thomas Williams ac eiliwyd gan Eifion Jones fod y cofnodion yn gywir.

**4. <u>Materion yn Codi</u>**

1. Ynys Wyllt – yn dilyn o yrru pethau ymlaen i John Lloyd o LWH rydym nawr yn disgwyl ymateb ar sut i barhau.
2. Mynediad i'r fynwent – heb glywed dim am hyn felly eisiau dilyn fyny ar y mater gyda Sara Evans, Cyfreithwraig.
3. Pont Tai Lôn a Pantafon - dal heb ei orffen, adroddwyd ei bod ar raglen waith Cyngor Gwynedd. Dilyn fyny ar hyn gyda Cyng. Dafydd Davies
4. Coed Aberdesach – dim i'w adrodd.
5. Arwydd cyflymder – yr arwydd newydd wedi cyrraedd ond angen ei osod. Holi pryd fydd yn cael ei osod.
6. Deffibs - cyfarfod yn Abersoch nos yfory. Dim wedi derbyn y padiau a batri sydd wedi archebu a thalu ers tipyn.
7. Biniau – y clerc wedi cael manylion cyswllt swyddog i ymdrin â hyn ac am gysylltu.
8. Llwybr Lan Môr - canclwm dal angen ei drin. Pwyllgor Ardal Nebo wedi cytuno i gyfarfod i drafod hyn - cysylltu â nhw am hyn. Y llwybr hefyd angen ei dorri - angen gofyn i Arwel wneud hyn. Hefyd, darn eithaf peryglus yn rhan o'r llwybr ble mae'r pysgotwyr mynd lawr i'r afon ac angen ei ddiogelu. Cynnig i gysylltu â'r pysgotwyr i drafod hyn. Thomas Williams cytuno i siarad gyda nhw. Cais wedi dod yn gofyn a oes posib cael bwrdd picnic ychwanegol oddi ar y llwybr ger y lan môr. Cynigwyd i edrych fwy fewn i hyn ddiwedd y flwyddyn.
9. Llwybr o Bryscyni Ganol i Bryscyni Uchaf – dim wedi ei wneud am hyn a'r clerc dal disgwyl ymateb gan Dewi Owen o Gyngor Gwynedd – dilyn fyny arno eto.
10. Pontllyfni - manhole BT – angen dilyn fyny ar hyn.
11. Clwb Ieuenctid a chais grant Gwynedd Ni - wedi cael cynnig y grant am £3980.33. Trafod, cynnig ac eilio i dderbyn y grant. Diolch i Eirian Allport am ei gwaith gydag y cais hwn.

Arwyddwyd ………………………………………………………… (Cadeirydd)

Dyddiad …………………………………………………………….

12. Cwynion am chwyn o gwmpas y pentrefi - holi Cyng. Dafydd Davies os ydi'r tîm tacluso am ddod i wneud hyn.

**5. Ceisiadau cynllunio** – Bryn Ifan – sied amaethyddol – DIM GWRTHWYNEBIAD

**6. Materion ariannol**

a) <u>Sefyllfa ariannol ar 28 Awst 2025</u>

| | |
|---|---|
| Cyfrif cadw (elusen) | £32.68 |
| Cyfrif cyfredol | £19363.18 |

**7. Gohebiaeth -** pawb wedi cael copïau o'r ohebiaeth a dderbyniwyd dros y ddau fis i edrych drostynt. Aethpwyd drwy'r ohebiaeth a rhoi cyfle i unrhyw un godi unrhyw fater. Llythyr Hywyn Williams - holi am fwy o wybodaeth am y rhaglen waith Cymunedau Gwyrdd Gwynedd.

Cyfarfod goddiweddu Aberdesach - bu i Aaron Hughes, Cyng. Dafydd Davies a Nia Jones (clerc) gyfarfod yn Aberdesach gydag Andrew Gregson i drafod y cwynion a phryderon ynglŷn â'r goddiweddu sy'n digwydd yn Aberdesach ac i drafod cael llinellau gwyn soled yno. Adroddodd Andrew Gregson na fuasai posib gwneud hyn. Yn ystod y cyfarfod cafwyd sgwrs ynglŷn â dod a'r cyflymder lawr o 60mya i 40mya, hefyd cynigwyd i roi arwyddion mwy amlwg i rybuddio pobl i beidio goddiweddu. Trafodwyd hefyd efallai y buasai'r Cyngor Cymuned yn medru cysylltu â'r heddlu am gefnogaeth. Cynigwyd i gymrud argymhellion Andrew Gregson i amlygu yr arwyddion. Darllen e-bost Cyng. Dafydd Davies ei fod am gysylltu â siarad gyda'r uned drafnidiaeth. Ei holi am hyn a thrafod ymhellach yn cyfarfod mis Hydref.

**8. Materion aelodau** - Ken Williams - llwybr beics o Bontllyfni i Glynnog angen ei thorri gan fod llawer o ddrain yn dod allan i'r llwybr sy'n ei gwneud yn beryglus i bobl. **Eifion Jones** - chwyn angen ei chwistrellu gan fod y pentref yn flêr.

**9. Materion eraill –** nid odd dim yn codi.

**10. Cyfarfod nesaf -** Bydd y cyfarfod nesaf o'r Cyngor Cymuned yn cael ei gynnal ar nos Fawrth, 21 Hydref 2025 am 7.30 yr hwyr yn y Neuadd Bentref yng Nghlynnog.

Arwyddwyd ………………………………………………………… (Cadeirydd)

Dyddiad …………………………………………………………….